NEWYDDION

GAEAF 2007

Cynghrair Cymru Gyfan ar Gyfer Ymchwil a Datblygiad mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
All Wales Alliance for Research and Development in Health and Social Care

Mae AWARD mewn sefyllfa unigryw yng Nghymru i gyfrannu tystiolaeth ymchwil o safon y gellir adeiladu polisïau ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol arni. Mae'r rhifyn hwn o gylchlythyr AWARD yn canolbwyntio ar y ffyrdd amrywiol y mae gwaith AWARD yn datblygu polisïau effeithiol yng Nghymru a thu hwnt.

Mae gwaith AWARD yn sicrhau bod tystiolaeth o safon ar gael yn y prosesau gwneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â pholisïau. Mae'n cyfrannu at ddiwylliant lle mae tystiolaeth, gwyddoniaeth a gwybodaeth newydd yn hanfodol ar gyfer creu polisïau, ac sy'n allweddol i'r diwylliant gwleidyddol aeddfed y mae Cymru'n ceisio anelu ato.

Wrth wraidd gwaith AWARD ceir pum prosiect ymchwil y flwyddyn, a ariennir gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygiad (WORD). Dewisir yr astudiaethau hyn ar sail eu perthnasedd i bolisïau fel gall y casgliadau fwydo penderfyniadau polisïau'r dyfodol. Defnyddir adroddiadau prosiect terfynol (ar gael ar wefan AWARD) i gyfeirio adran bolisïau berthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae aelodau AWARD hefyd yn gweithio gydag arweiniad polisïau Cynulliad Cymru, y DU neu lywodraeth leol ar amrywiaeth o brosiectau ymchwil e.e. gweithiodd AWARD a PHIRN (Rhwydwaith Ymchwil Gwella Iechyd y Cyhoedd) gydag ymchwilwyr eraill ar archwiliad o gynlluniau cyfeirio ymarfer corff yng Nghymru cyn cyflwyno'r cynllun ledled y wlad.

Mae datblygu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn sail i AWARD a llunwyr polisïau i weithio gyda'i gilydd.Y meysydd lle mae AWARD wedi gwneud cyfraniad pwysig yw:

- ymgymryd ag adolygiadau o'r dystiolaeth bresennol
- amlygu bylchau mewn ymchwil
- ymgymryd â gwerthusiadau o fentrau polisi

Dyma enghreifftiau o waith a gomisiynwyd yn ddiweddar: adolygu'r marwolaethau gormodol yn ystod y gaeaf; gwerthuso Presgripsiwn Llyfrau Cymru; a datblygu fframwaith ar gyfer ymchwilio a gwerthuso polisi Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru. Ceir mwy o enghreifftiau yn y cylchlythyr hwn.

Meddai Dr Michael Shepherd, Cyfarwyddwr Rhanbarthol AWARD:

"Mae'r math hwn o ddatblygiad cronnus o bolisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn bwysig er mwyn datblygu ymchwil fwy soffistigedig sy'n berthnasol i bolisïau a gwella cyflwyno gwasanaethau yng Nghymru."

Cynnwys

Tudalen 1: Sut mae AWARD yn datblygu polisïau effeithiol

Tudalen 2 & 3: Enghreifftiau o ymchwil AWARD sy'n bwydo polisïau

Tudalen 4: Cynadleddau AWARD
Ail-lansio gwefan AWARD
Sut i gysylltu ag AWARD

Ffon: 0845 601 8545 | Ebost: contact@awardresearch.org.uk | Post: FREEPOST AWARD

Prosiectau ymchwil AWARD sy'n cyd-fynd â pl

Astudio effeithiau'r Strategaeth i Ofalwyr yng Nghymru a Lloegr

Yn ddiweddar mae aelodau o dîm AWARD Gogledd Cymru, mewn cydweithrediad â chydweithwyr o Brifysgol Abertawe, wedi cwblhau astudiaeth tair blynedd sy'n edrych ar effeithiau'r Strategaeth Genedlaethol i Ofalwyr. Ariennir y gwaith hwn gan yr Adran Iechyd. Mae astudiaeth gyfochrog o'r Strategaeth i Ofalwyr yng Nghymru, a ariennir gan WORD, ar waith.
Mae'r ddwy astudiaeth yn ceisio:

1. Amcangyfrif effaith y Strategaeth i Ofalwyr dros amser ar iechyd ac ansawdd bywyd gofalwyr.
2. Archwilio'r broses a chanlyniadau'r asesiad i ofalwyr.
3. Ystyried a fu'r Strategaeth i Ofalwyr yn llwyddiannus wrth hyrwyddo amrywiaeth ehangach o wasanaethau i ddiwallu anghenion gofalwyr.

Drwy ddefnyddio ymagwedd aml-ddull i asesu newid, mae'r astudiaeth wedi cynnwys: arolygon drwy'r post; cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda gofalwyr a'r rheiny maent yn gofalu amdanynt; grwpiau i ofalwyr; a chyfweliadau dros y ffôn gyda staff o'r sectorau statudol a gwirfoddol.

Hyd yn hyn, mae'r canlyniadau'n awgrymu bod troi amcanion y Strategaeth yn arfer wedi bod yn her; peth llwyddiant yn unig a gafodd y Strategaeth wrth hyrwyddo amrywiaeth ehangach o wasanaethau i gefnogi gofalwyr. Mae llawer o ofalwyr yn parhau i feddwl bod y gwasanaethau'n anhyblyg ac yn anymatebol a phrin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu bod defnyddwyr y gwasanaeth yn meddwl yn greadigol am ffyrddo ddiwallu anghenion gofalwyr dros amser.

Yn lleol, cefnogir nodau ac amcanion y Strategaeth. Serch hynny, mae sawl ffactor wedi rhwystro datblygiad Strategaethau lleol i Ofalwyr. Er enghraifft, profodd gweithio ar y cyd ymysg rhanddeiliaid i ddatblygu strategaethau sy'n adlewyrchu'r sbectrwm eang o anghenion gofalwyr yn anodd gan fod lefel y flaenoriaeth a roddir gan sefydliadau i gefnogi gofalwyr yn amrywio'n helaeth.

Mae'r ymchwil wedi nodi nifer o rwystrau ymarferol, proffesiynol a sefydliadol i roi'r Strategaeth ar waith ac i gyflwyno asesiadau a chefnogaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys yr arian cyfyngedig sydd ar gael i gefnogi swyddi gofalwyr arbenigol, dryswch ynghylch beth yw gwasanaeth gofalwyr a'r diffyg sylw i fonitro a gwerthuso canlyniadau. Mae'r negeseuon allweddol o ran arfer yn ymwneud â gweithio gyda gofalwyr fel partneriaid yn y broses ofalu a gwella gallu creadigol sefydliadau gwasanaeth. Am ragor o wybodaeth,

Cysylltwch â Diane Seddon
[d.seddon@bangor.ac.uk]

Datblygu fframwaith ar gyfer gwerthuso Polisi Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru

Bu AWARD yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ers sawl blwyddyn wrth gynllunio datblygiad, gweithrediad ac arfarniad o bolisi Rheoli Cyflyrau Cronig yng Nghymru.

Llwyddodd arweiniad polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau gwasanaethau AWARD yn llwyddiannus flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae wedi galluogi prosiectau blwyddyn i ddatblygu'n arfarniad tymor hwy o bolisïau. Mae AWARD wedi datblygu Fframwaith ar gyfer Ymchwilio a Gwerthuso polisi Rheoli Cyflyrau Cronig a bellach mae'n gweithio gyda byrddau iechyd lleol i gefnogi cynllunio arfarnu ynghyd â rhoi polisïau ar waith.

Mae'r Athro Helen Snooks, sydd wedi arwain y prosiectau AWARD hyn, yn gwerthfawrogi'r berthynas waith.

SHARP

Archwiliwyd y broses llunio polisïau ei hun yn Rhaglen Ymchwil Gweithredu Gynaliadwy ar Iechyd (SHARP) sy'n destun llyfr newydd gan aelodau a chydweithwyr AWARD.

Llyfr amlawduraeth yw ***Community health and wellbeing: action research on health inequalities*** sy'n archwilio'n feirniadol brofiad Rhaglen Ymchwil Gweithredu Gynaliadwy ar Iechyd yng Nghymru dros bum mlynedd o ran y llenyddiaeth gyfredol ar bolisïau, iechyd cymunedol ac anghydraddoldebau iechyd ac ymchwil weithredu. Mae aelodau AWARD, sef Alison Porter, Gareth Williams, Helen Snooks ac Angela Evans, ymysg y tîm golygyddol a'r cyfranwyr allweddol.

Mae gwella iechyd mewn poblogaethau lle mae iechyd yn wael yn broses gymhleth. Mae'r llyfr hwn yn dadlau nad yw ymagwedd draddodiadol y llywodraeth sef annog unigolion i fyw'n iachach yn ddigon - mae angen gweithredu i hyrwyddo iechyd y cyhoedd nid drwy asiantaethau cyhoeddus yn unig ond hefyd drwy ddefnyddio asedau ac adnoddau cymunedol yn yr ystyr ehangaf.

holisïau cyfredol

"Mae AWARD wedi croesawu'r cyfle i weithio gyda llunwyr polisi ynghyd â datblygu polisïau, fel y gellir arfarnu polisïau wrth roi cynlluniau ar waith. Yn y pen draw, mae hyn yn rhoi cyfle i ni ddeall beth sy'n gweithio i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynhyrchu tystiolaeth sy'n gallu cyfeirio datblygiad gwasanaethau a pholisïau yn y dyfodol yng Nghymru ac yn ehangach, " meddai.

Mae Helen Howson, a gomisiynodd y gwaith fel Pennaeth Cyflyrau Cronig a Pholisïau Iechyd Cymunedol yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, hefyd wedi gweld cyfleoedd yn codi o'r berthynas dda gyda thîm ymchwil AWARD.

"Bu'r cynllun AWARD yn offeryn ardderchog a'n galluogodd i weithio ochr yn ochr ag ymchwilwyr i gyfeirio, monitro a datblygu polisïau a strategaethau ar lefel genedlaethol a lleol."

Mae'r llyfr yn trafod sut roedd y rhaglen SHARP wedi rhoi cyfle i ddatblygu cysyniadau a theorïau cyffredinol am ddatblygiadau polisi cymunedol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol ar draws ffiniau cenedlaethol. Mae'n dangos bod gweithredu cymunedol cymhleth a chynaliadwy a phartneriaethau lleol effeithiol yn elfennau hanfodol wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn llwyddiannus. Mae'r awduron yn dadlau dros ymagweddau mwy mentrus a hyblyg wrth ddefnyddio gwybodaeth i ddatblygu polisïau iechyd.

Cyhoeddwyd Community Health and Wellbeing: action research on health inequalities ym mis Hydref gan Policy Press, pris £19.99, ac fe'i lansiwyd yn y seminar ar anghydraddoldebau iechyd ym Mhrifysgol Caerdydd.

www.policypress.org.uk

Anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai Pobl Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) hyn: adolygu llenyddiaeth

Sbardunodd dwy flaenoriaeth bolisi benderfyniad WORD (Swyddfa Cymru dros Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol) i gomisiynu AWARD i ymgymryd ag adolygiad o'r llenyddiaeth ar anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai Pobl Lesbaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol hyn. Roedd yr ymchwil yn ofynnol fel rhan o roi'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru ar waith. Roedd hefyd yn dilyn ymrwymiad gweinidogaethol i ddatblygu nodau cynhwysedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n sail i'r Strategaeth Pobl Hyn yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003). Comisiynwyd yr adolygiad o lenyddiaeth i:

- Fapio'r ymchwil bresennol ar iechyd, gofal cymdeithasol a thai pobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol hyn.
- Darparu cefndir er mwyn cwblhau ymarfer ymchwil cyflawn.
- Nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymchwil bellach.

Nododd y llenyddiaeth fethiant defnyddwyr gwasanaeth i gydnabod anghenion defnyddwyr lleiafrifoedd rhywiol. Mae gan bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol hyn anghenion arbennig am wasanaethau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol ac maent yn wynebu risgiau i'w hiechyd corfforol. Mae adroddiadau ar gyfraddau gofid meddwl yn ddadleuol gan fod ymchwil yn y gorffennol wedi categoreiddio hunaniaeth lleiafrifoedd rhywiol fel rhywbeth patholegol. Mae ymchwil ar bobl drawsrywiol yn y maes hwn, fel eraill, yn brin.

Gall gwahaniaethu sefydliadol effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd y gofal a ddarperir a gall arwain at eithrio pobl LGBT rhag cael gofal, ac oedi neu ansawdd gofal gwaeth, a gall eithrio gofalwyr rhag cael mynediad priodol i gleifion. Ymddengys fod rhwydweithiau cefnogi'n bwysig i gynnal hunan-barch yn wyneb y gwahaniaethu. Mae pobl lesbaidd a hoyw yn arbennig wedi dibynnu ar rwydweithiau cyfeillgarwch cryf.

Dyma'r ffactorau sy'n debygol o gael effaith fawr ar anghenion iechyd, gofal cymdeithasol a thai'r holl bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol hyn yng Nghymru:

- gwahaniaeth diwylliannol, dosbarth a grwp ieithyddol
- byw mewn ardal wledig
- anabledd
- trais yn y cartref
- gwahaniaethu posib gan sefydliadau (bwriadol neu anuniongyrchol)

Awgrymir amrywiaeth o argymhellion ar gyfer polisïau ac arfer yn yr adroddiad a baratowyd gan AWARD. Rhoddwyd cyflwyniadau hefyd i arweinwyr polisi iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac i gynadleddau.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Myfanwy Davies [daviesmm@cardiff.ac.uk]

CYNHADLEDD

CYNHADLEDD QUIC/AWARD

It's All In The Mix

5 Rhagfyr 2007 Abertawe

Cynhelir y gynhadledd hon ar gyfuno dulliau Ymchwil Gwasanaethau Iechyd yn effeithiol ar y cyd gan AWARD ac Ymchwiliad Ansoddol Cymru (QUIC).
Mae'r prif siaradwyd yn y maes dulliau cymysg yn cynnwys yr Athro Max Bergman, Prifysgol Basel;Yr Athro Angela Coulter, Sefydliad Picker, Ewrop; Dr Alicia O'Cathain, Prifysgol Sheffield; a Dr Catherine Pope, Prifysgol Southampton.

CYNHADLEDD AWARD GOGLEDD CYMRU

Prifysgol Bangor, Mawrth 2007

Yn seiliedig ar dair prif thema - gwella iechyd, gwella gofal, gwella gwybodaeth - nod y gynhadledd undydd oedd hyrwyddo ymchwil a datblygiad mewn iechyd a gofal cymdeithasol ac i ddarparu fforwm trafod ynghylch y ffordd orau i gynhyrchu tystiolaeth gadarn a fydd yndylanwadu ar bolisïau ac arfer yn y dyfodol. Roedd tua 70 o gynrychiolwyr yn bresennol, gan gynnwys ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ac academyddion sy'n ymwneud ag ymchwil ar iechyd a gofal cymdeithasol.

AIL-LANSIO GWEFAN AWARD

Rydym yn ail-lansio ein gwefan ym mis Ionawr.
Bydd ailddylunio'n gwneud y tudalennau'n fwy llachar ac yn haws pori trwyddynt.

Ewch i www.awardresearch.org.uk er mwyn:

- Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am waith AWARD
- Cael gwybodaeth am gynadleddau, seminarau a digwyddiadau hyfforddi sydd ar y gweill
- Edrych ar gopïau o adroddiadau a chyhoeddiadau diweddar
- Dysgu mwy am aelodau tîm AWARD

SUT GALLWCH CHI GYSYLLTU AG AWARD

Mae gennym bob amser ddiddordeb mewn clywed gan bobl sy'n awyddus i ddatblygu prosiectau ymchwil cydweithredol newydd. Gallwch gysylltu â ni mewn tair ffordd:

Gwefan: www.awardresearch.org.uk
Ffôn: 0845 601 8545
Post: RHADBOST AWARD, CYMRU

Gobeithio bod y cylchlythyr hwn yn ddiddorol i chi. Byddem yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ar gyfer eitemau yn rhifynnau'r dyfodol.Cofiwch ddangos y cylchlythyr hwn i gydweithwyr y gallai fod o ddiddordeb iddynt. Am gopïau ychwanegol neu i'ch ychwanegu at y rhestr bostio, cysylltwch â Sherry Jenkins (tel 01792 602346 or email s.a.jenkins@swansea.ac.uk).
Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn bellach, gofynnwch i ni ddiwygio ein rhestr bostio a thynnu eich enw oddi arni.